YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XXXVIII. AWST, 1938 RHIF 8.

Christmas Evans.

Gan yr ATHRO M. B. OWEN, Caerfyrddin.

NI sonir amdano yn mynychu un lle o addoliad cyn iddo fynd yn was i Gastell Hywel, ond yr oedd Dyffryn Cerdin a Dyffryn Cletwr wedi eu trwytho a'r ysbryd crefyddol. Yr oedd Lewisiaid, Dyffryn Cerdin yn wŷr amlwg gyda chrefydd lle bynnag yr ymsefydlent. Calfiniaid selog oeddynt hyd ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Yr oedd Thomas Lewis, Castell Hywel yn fardd o sylw, a chyhoeddwyd ei "Ganiadau Duwiol" wedi ei farw yn 1795. Cyn i David Davis fynd i fyw i Gastell Hywel y bu ef yno. Diweddodd ei oes yn Ynys Wen, Llanegwad. Un o Ddyffryn Cletwr oedd Moses Williams, M.A., Glaslwyn, gwr enwog ei wasanaeth a'i dduwioldeb a fu farw yn 1742. Mae'n bwysig cofio hefyd fod gweinidogion Llwynrhydowen a'i changhenau mor selog a'u brodyr Calfinaidd dros deyrngarwch i Feibl ysbrydoledig a thros yr ordinhadau a thystiolaeth gwyrthiau i ddilysrwydd yr efengyl yng nghyfnod ieuenctid Christmas Evans ac ymhell ar ôl hynny. Yn unig gwahaniaethent ar y ffordd gywiraf o ddehongli'r Ysgrythur ond seilient eu daliadau yn ddibetrus ar yr Ysgrythur. O'r ochr arall nid oedd eu disgyblaeth eglwysig mor anrasol ag eiddo'u brodyr Calfinaidd. Cymerer fel enghraifft y ffaith i Benybont, Llandysul esgymuno ei gweinidog, y Parch. Daniel Davies, Talgoed, am iddo beidio gwarafun i'w wraig, y ddwy forwyn a'r gwas rwymo sopynau wedi naw o'r gloch nos Sul, ugain mlynedd ar ôl i Christmas droi at y Bedyddwyr.

Mae'n wir hefyd nad oedd pregethu David Davis, Castell Hywel yn boblogaidd am fod ei lais a'i draddodiad, er gwaethaf ei duedd

i wylo yn y pulpud, yn ei erbyn,—eto rhifai'r Llwyn a'i changhenau wyth gant o aelodau a llu mawr o wrandawyr yn amser Christmas Evans. Cynhelid cyrddau gweddio yn yr wythnos mewn bythynod gan aelodau y Llwyn fel aelodau Pencader, ac yr oedd yr awyrgylch ym mhlwy Llandysul yn y cyfnod hwnnw yn dra ffafriol i grefydd. Yn 1784 torrodd adfywiad crefyddol cryf allan yn y Llwyn, ac yn y Twrgwyn gyda'r Methodistiaid, ac ymunodd torf o bobl ifainc a'r ddwy eglwys y flwyddyn honno, ac yn eu plith yn y Llwyn Christmas Evans.

Wedi deffro ohono mewn ystyr grefyddol teimlodd awydd dysgu darllen er mwyn cloddio i drysorau'r Beibl, a mis y bu cyn dysgu yn y dosbarth a gwrddai ar brynhawn Sul a chyda'r nos yn yr wythnos yn sgubor Penralltfawr, ac yn y gaeaf dilynol rhoddodd ei feistr chwe mis o ysgol yn rhad iddo, a dysgodd Saesneg a Lladin ddigon yno i fedru defnyddio Geiriadur. Cyn gorffen y chwe mis mentrodd ddechrau pregethu ar gais bechgyn y Llwyn a ymaelododd yno yr un pryd ag ef. Benthyca cyfrol o blith llyfrau ei feistr a wnaeth i gael y bregeth gyntaf a chyfieithu honno. Bu'n ddigon gonest i gyfaddef cyn marw mai Esgob Beveridge, Llanelwy a'i pioedd. Fe dybiodd Christmas Evans fod y teitl "Thesaurus Theologicus" yn cynnwys pregethau Dr. Beveridge, ond nid pregethau mo'r llyfr hwnnw, eithr esgyrn corff o ddiwinyddiaeth ydyw. Amlwg nad aeth Christmas Evans ddim yn ddwfn i weithiau Beveridge. Y mae saith ugain o bregethau Beveridge yn y cyfrolau eraill o dan deitl arall, ac un o'r rheiny yn ôl pob tebig a gyfieithiodd.

Y mae'r hanes amdano yn y cyfnod hwn yn "Hanes Plwyf Llandysul," fel mai afreidiol manylu ar fanion ei helynt ond yn unig i gywiro atgof Christmas Evans ddeugain mlynedd ar ôl gadael y cylch am ddechrau ei yrfa bregethwrol. Wedi dechrau pregethu y collodd ei lygad, medd ef, ar ei ffordd adref o Henffordd. Nid felly y bu, meddai Dafydd Evans, y gwas arall, a fu'n achos iddo'i golli, ond ar y ffordd adref o ffair Llandysul y'i collodd yn 1784 neu 1785. Cefnogid ef i bregethu trwy roi Suliau iddo ym Mhencader gan y Parch. W. Perkins, medd ef, ond yr oedd W. Perkins wedi gadael Pencader, a Jonathan Jones, o Lanfihangel-uwch-Gwili, a ofalai am Bencader o 1785 hyd 1815. Byddai Christmas yn pregethu rhwng 1785 a 1788 yn Nghrugymaen a oedd bron ar drengu, Mydroilyn a Phantycreuddyn, sef Horeb, ac yn 1788—9 ym Mhenybont. O bosibl mai New Inn a olygai wrth Bencader, canys daliodd W. Perkins i gadw honno'n fyw am ysbaid ar ôl colli Pencader yn 1779. Sonia am fugeilio yn y Cwm Tywyll ger Allt yr Odyn, ond ym mhlwy Llangeler y mae Cwm Tywyll, am yr afon i Bwlchog. Y mae'n eithaf gwir na chai bregethu yn y Llwyn na Phenrhiw am ei fod yn ddigoleg,

canys y pryd hwnnw yr oedd y traddodiad Eglwysig am addasrwydd i arwain addoliad cyhoeddus yn gryf yn y Llwyn, rhag bod perigl unrhyw anffawd i weddeidd-dra'r gwasanaeth. Collwyd ef i'r Presbyteriaid Arminaidd nid am ei rwystro i bregethu yn eu capeli, ond am iddo groesi at y Bedyddwyr, ac yn eu plith hwy yr oedd dawn ymadroddi yn cuddio llawer o ddiffygion. Cyfeddyf Christmas ei hun ei fod yn anwybodus pan aeth i'r Gogledd, ac yr oedd hefyd yn dra hygoelus, fel y prawf ei stori am y sarff hedegog a saethwyd yng Nghastell Newydd ond a ehedodd i drengu i gors Nantycwnstabl. Cedwid y ddyletswydd deuluaidd yng Nghastell Hywel, ac arferai Christmas gadw honno yn ei dro, fel y gellir gweled nad esgeuluswyd mo'i gefnogi i arfer ei ddawn o'r tuallan i'r cysegr. Pe buasai wedi aros yn ei enwad cyntaf, gallasai gael llawer o le i'w ddychymyg yn niwinyddiaeth yr Ariaid, fel y prawf "Paradise Lost," Milton ; ond aeth yn Fedyddiwr Calfinaidd yn 1788, tair blynedd wedi iddo ddechreu pregethu, yn ôl ei dystiolaeth ei hun. Yr oedd peth cyfrifoldeb ar y Llwyn am iddo droi'n Fedyddiwr, canys dysgwyd ef yno i dderbyn llythyren yr Ysgrythur fel anffaeledig, a derbyn y profion a geir yn y Testament Newydd am y dychweledigion mewn oed yn ymostwng i fedydd fel digonol dros ddaliadau'r Bedyddwyr am ddeiliaid bedydd a wnaeth. Gwas fferm o'r enw Evan Amos fu'n dadlau ag ef, yntau wedi bod yn aelod o'r Llwyn ond wedi troi 'n Fedyddiwr, i beri iddo roi sylw arbennig i'r mater hwn. Terfynodd Evan Amos ei oes yn y Brechfa. Diddorol ydyw'r ffaith i'r Parch. Charles Lloyd, mab hen weinidog y Llwyn, yntau droi'n Fedyddiwr Ariaidd flwyddyn ar ôl Christmas, ac ymostwng i'r oruchwyliaeth yn hollol fel y gwnaethai yntau.

Daeth Christmas Evans ar daith bregethu yn Awst a Medi, 1791, o'r Gogledd i Siroedd Aberteifi a Phenfro a chynhyrfodd ei wrandawyr o gylch Aberteifi nes y parhaent i orfoleddu am oriau ar ôl iddo ef bregethu, a bedyddiwyd cannoedd o ddychweledigion fel ffrwyth y daith honno ; ond nid oedd llwyddiant eithriadol yn lafur yn ei eglwysi gartref fel rheol. Rhyw ddeuddeg oedd ei gynulleidfa yn nhref Amlwch am dros ddeng mlynedd pan oedd ei enw yng ngenau'r miloedd yn y Deheudir, ac ym mlynyddoedd olaf ei oes yr oedd ei gynulleidfa yng Nghaernarfon yn llai nag eiddo Robert Jones, Llanllyfni yn yr un cyfnod yn y Garn, Eifionydd.

Ysgrifennai a dysgai ei bregethau cyn iddo adael y Llwyn, a pharhaodd i'w hysgrifennu'n fanwl. Bu traddodiad pulpud y Llwyn yn gyfrwng o leiaf i'w gychwyn ar ben y ffordd fuddiol hon o baratoi pregeth. Yr oedd yn gyflym ei feddwl ym myd ffigyrau ac yn hynod hapus ei ddull o'u defnyddio ar y cyfan. Er enghraifft wrth orfod diodde gwr uchelgeisiol didalent dywedodd y gallai jac y neidiwr (sioncyn gwair) boeni llawer a'i glecian os na fedrai

neidio i ben coeden. Rhannai bregethau i rai mynegairyddol, adnodyddol, esboniadol, deddfol ac efengylaidd.

Disgrifiai ei gyflwr ym Môn fel " pregethwr tlawd capel tlawd ar geffyl tlawd," ac o bosibl fod gosodiad Robert Jones, Llanllyfni, a adweinai Christmas yn dda, amdano yn cyfleu gogwydd ei feddwl gystal a dim, sef na fedrai Christmas Evans ddim adrodd hanes o'r Beibl heb ei ailwisgo yn ei ddull rhamantus ei hun, megis gwneud y Pentecost yn yr Actau yn frwydr anferth gyda holl fagnelau a thanbelennau uffern a nefoedd ar waith a'r eglwys yn casglu tair mil o garcharorion i'w nodded ar ei diwedd. Nid oedd yr hen batriarch hwnnw yn edmygydd o Christmas Evans fel pregethwr ; o'r ochr arall yr oedd Dr. Owen Thomas, Lerpwl, wrth ei fodd yn ei wrando. Er i Christmas Evans newid ei safle ddiwinyddol deirgwaith ni lusgodd ei angor o'r llecyn y cydiodd ynddo yn y Llwyn, sef nad oes gobaith achub neb ond trwy ei argyhoeddi. Gweld y gwir yw dechrau'r daith ysbrydol, a'i dderbyn yw cyfrinach nabod ei rym yn yr enaid, yn ôl Christmas Evans, ac yn ei ymgais i ddilyn y gwir fel y gwelai efe ef y newidiodd ei farn fwy nag unwaith. Yr oedd ei galon yn well na'i Galfiniaeth, a'i ddychymyg yn rhy wyllt i'w farn, megis yn ei ddisgrifiad o Dduw yn llongddrylliad y ddynoliaeth yn codi ychydig o'r genlli i'r bywydfad pan y gallai eu hachub i gyd.

Bu'n barddoni peth, a'r un dull ymladdgar o osod ei feddyliau welir yn ei benillion. Ceir ambell i bennill ganddo sy'n medru byw hyd yn hyn. Fel traddodwr yr oedd ganddo lais godidog, a medrai ei reoli a chadw nerth i'r floedd ysgubol tua'r diwedd wrth bregethu mewn capel neu ar y maes, ac er na phregethai'n hir, dywedai lawer am nad oedd dor ar ffrydlif ei eiriau. Yr oedd hefyd yn ddyn tal llyfndew a'i lygad mawr yn tynnu sylw wrth bregethu. Bu son am ei bregethu dychmygol yn Lloegr ac America a chyfieithwyd rhai o'i bregethau i'r Saesneg, Ellmyneg, Ffranceg a Bengali. Ceir cofeb iddo hyd yn oed yn Durban. Yr oedd ynddo allu gwreiddiol, fel y dengys ei ddisgrifiad godidog o Daniel Rowlands, ei gyngor i bregethwr ifanc a'i draethawd ar adenedigaeth, a thynnodd y werin i wrando efengyl mewn cyfnod didaro tebyg i'r presennol yng Nghymru. Bu ymgais i faeddu ei garitor gan ddigofus ddialgar wrthwynebwyr, ond ni lwyddwyd. Yr oedd yn well Cristion nag oedd o ddiwinydd ac yn blentyn diniwed ar hyd ei oes. Tystiolaeth Gwalchmai am dano fel llefarwr ydoedd y gallai chwarae mewn araith ddilynol mewn ffrydlif ddiorffwys o'r huawdledd mwyaf swynol am chwarter awr cyn cael *full stop*.

Plaid Genedlaethol.

Gan Mrs. A. Rees, Llanelli.

Mewn cyfnod anodd ac anesmwyth peth cyffredin ydyw gweld mudiadau a phleidiau newydd yn codi, a phob un ohonynt yn bendant a sicr y gall unioni pethau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma, y mae plaid a'i geilw ei hun yn " Blaid Genedlaethol " wedi blaguro bron ymhob gwlad, ac nid yw Cymru yn eithriad. I mi, y mae rhywbeth yn annirnadwy yn y drychfeddwl, am na allaf feddwl am un genedl, os teilynga enw cenedl, ond fel un blaid fawr genedlaethol, yn caru ei gwlad, a'i hiaith, yn byw yn ffyddlon i'w hegwyddorion a'i thraddodiadau, ac yn barod i aberthu hyd yr eithaf er ei mwyn. Beth yn ychwaneg ddisgwylir oddiwrth genedl ?

Cymerer ein cenedl ni, er enghraifft. Pa Gymro na fu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ryw dro neu'i gilydd, cyrchfan y genedl yn gyffredinol, ac na theimlodd enaid y genedl yn gwefreiddio pob nodyn o'r hen Anthem Genedlaethol annwyl, nes trydanu'r awyr â'i gwres. Neu pwy fu ar faes y bêl-droed erioed, neu yn gwrando ar y Radio pan fo bechgyn Cymru yn chwarae, heb ganfod gwladgarwch yn ymchwyddo yn y tonau Cymraeg a ganant. Hwyrach nad yw'r bechgyn hyn yn perthyn i'r Blaid Genedlaethol benodol, eto, mor wladgarol ydynt, ac mor ddiffuant.

Beth ydyw hanfod plaid genedlaethol ynte ? Credaf yn fwy pendant bob dydd mai penboethni ydyw. Ond tybed, a wyf fi yn rhy hwyrfrydig gyda golwg ar symudiadau newydd ? Os ydwyf, maddeuer i mi, oherwydd ni'm doniwyd ag egwyddorion chwyldroadol. Gwell gennyf fywyd tawel a hamddenol, ac o bosibl fy mod yn rhy fodlon ar bethau fel y maent, heb feddu un awydd i symud ymlaen.

Addefaf nad yw Cymru yn hollol rydd o berigl heddiw, oblegid yr iaith a'r arferion estronol sy'n gwthio eu pennau dros ei gorwelion, ac fod angen rhyw allu arweiniol i'w chyfeirio ar ei llwybrau cynefin. Hyderaf y bydd i'r " Blaid Genedlaethol " gyfiawnhau ei bodolaeth trwy gadw'r Gymraeg yn fyw ar aelwydydd Cymru.

Rhyfedd fel y gwahaniaetha dynion yn eu rhagolygon a'u syniadau ar wahanol faterion. Prin y ceir dau yn unfarn ar un pwnc ; ni wahaniaethant o ddewisiad, ond wrth reddf. Gwelir arweinwyr brwdfrydig yn codi yn y gwahanol wledydd, ond y bobl gyffredin sydd yn y mwyafrif ymhob man, a da yw hynny, oherwydd y mae eisiau eu syniadau syml i weithredu fel brêc, rhag i'r arweinwyr redeg i ffwrdd ar olwynion rhyw fympwy gwrthun. Ond, fel y mae gwaetha'r modd, y mae'r Blaid Genedlaethol mewn amryw o wledydd Ewrob wedi mynd mor ormesol, fel na rydd hawl i'r werin ddweud ei meddwl, a gwelir yr arweinwyr yn rhedeg yn wyllt, ac nid oes dim a'u ceidw yn ôl. Wedi'r cyfan ' Y Farn

Gyhoeddus ' yw'r angor sicraf i lynu wrthi.

Dywedir mai'r ganrif bresennol ydyw'r fwyaf heddychol welodd Cymru erioed o fewn ei therfynau ei hun. Mor hyfryd yw'r tawelwch a'r heddwch a fwynhawn. Beth sydd i gyfrif am hyn ? Yn un peth, y ffaith fod y genedl yn fwy unol a brawdol nag yn yr amser gynt, pan fyddai'r Gogledd yn codi yn erbyn y De, neu'r Dwyrain yn erbyn y Gorllewin. Ffaith arall ydyw, fod y tadau a'r teidiau wedi aberthu yn ddrud er sicrhau y fath etifeddiaeth hyfryd i ni. Hwy a fu'n llafurio, ninnau a aethom i fewn i'w llafur hwy. Y mae'r cyflwr mor foddhaol heddiw, ac eithrio'r diffyg gwaith, fel na wêl y dyn cyffredin angen am lawer o welliantau gwladwriaethol. Nid felly'r Blaid Genedlaethol. Ei breuddwyd hi ydyw cael Ymreolaeth i Gymru a Senedd Gymreig. Honna y byddai hynny yn amddiffynfa sicr i'r Iaith Gymraeg. Y mae'n wir y gellid hawlio'r Gymraeg yn brif iaith yr ysgolion, ond nid wyf mor sicr y gellid ei gwneud yn iaith lafar ymhlith y bobl ieuainc modern yma, heb basio deddf i wneud hynny'r orfodaeth. Swnia'r syniad yn rhy Hitleraidd i ateb fy chwaeth i. Mae un Hitler yn ddigon mewn oes.

Ni honnaf ddeall llawer ar wleidyddiaeth, ond clywais Aelod Seneddol, yntau yn Gymro pybyr, yn dweud na allai Cymru fyw ar ei hadnoddau ei hun, a'i bod yn cael miloedd o bunnau o help o Loegr yn flynyddol. Rhyw ddwy filiwn ydyw ei phoblogaeth.

Pe bae'r Blaid Genedlaethol yn penderfynu gwneud ymgais bendant i sylweddoli ei breuddwyd, ni chredaf y cawsai gefnogaeth y genedl yn gyffredinol, felly, ni wnai'r cynllun ond peri anghydfod a chynnen, ac efallai ymraniad ac ymladdfeydd, Y mae Cymru wedi gweld digon o ymryson ac ysgarmesau yn y dyddiau gynt, heb i ni ddechrau ymrannu eto, ac efallai, syrthio i'r un cyflwr truenus a'r Ysbaen. Nid yw'r genedl yn unol ar y cwestiwn o ddewis prif-ddinas, a'r canlyniad yw ein bod heb un, yr hyn na ellir ei ddweud am un wlad arall. Wedyn, gyda golwg ar yr heol newydd o'r Gogledd i'r De, yr honnir fod cymaint o'i heisiau, ni fedrwn gytuno. Bydd rhai yn dweud mai gyda glannau'r môr y dylai gael ei hadeiladu, dywed eraill mai trwy ganol y wlad y dylai redeg. Oni allwn gytuno ynghylch pethau bychain, pa fodd y cytunem ar bynciau pwysig a dyrys y wladwriaeth.

Dywedir na eill gwlad hunan-foddhaus ddatblygu. Wel, gadewch i ni daflu golwg dros Gymru heddiw. Ai gwlad yn cysgu ydyw ? Nid dyna'r arwyddion, beth bynnag. Gwelwn godi ysgolion newydd, a pharotoi parciau chwarae newydd, codi ysbytai newydd, adeiladu Canolfannau Gwasanaeth Cymdeithasol i'r di-waith, tynnu hen dai i lawr ac adeiladu rhai gwell, cywiro heolydd a'u cadw yn daclus, plannu coed yma a thraw i harddu'r broydd, heb sôn am waith yr amaethwyr a'r garddwyr sy'n gwrteithio, ac yn cadw y tir yn hardd a graenus.

"Nid difaterwch welir yma'n ffynnu,
Ond ymdrech deg i godi safon Cymru."

Nid ymddengys ein rhaglen yn ddrwg, er fod lle i wella eto, yn enwedig mewn perthynas i dai gweithwyr y parthau gwledig. Credaf y byddwn yn gadael gwell etifeddiaeth i'r oes nesaf nag a gawsom ni, er cystal oedd. Onid ystyr ein hymddangosiad byr ar y ddaear yma ydyw ymdrechu i adael y byd yn well nag y cawsom ef. Ni fu cyfleusterau addysg yn well erioed nag ydynt heddiw, ac ni fu erioed fwy o ofal dros y claf a'r clwyfus.

Fel y dywedais, gallasai'r Blaid Genedlaethol wneud llawer er diogelu'r Gymraeg, pe sylweddolai ei breuddwyd. Y mae ymgais dda wedi ei gwneud yn y cyfeiriad yma'n barod trwy ei mabwysiadu yn yr ysgolion.

Bydd rhieni yn gofyn weithiau paham y mae Saesneg yn anhepgor yn yr ysgolion, a'r Gymraeg ond rhywbeth i'w dewis neu ei gwrthod. Ymddengys y drefn yn annheg iawn. Eto, gwyddom yn dda mai Saesneg ydyw iaith masnach, ac fod yn rhaid wrthi cyn sicrhau swyddi pwysig ym myd masnach. Y mae llawer iawn o'n pobl ieuainc yn gorfod croesi Clawdd Offa er sicrhau bywioliaeth, am nad oes digon o waith yma iddynt. Ychydig obaith fyddai ganddynt am swyddi yng ngwlad yr estron heb wybodaeth drwyadl o'r Saesneg. Ni raid i neb fod yn llai o Gymro oherwydd ei fod yn hyddysg mewn Saesneg.

Hoffwn i yn fawr weled y Gymraeg yn cael y lle blaenaf yn ein hysgolion, ond fel y mae gwaethaf y modd, ni fyddai o fawr gwerth i ni ond o fewn i gyffiniau ein gwlad ein hunain. Ni châr neb ei wlad a'i hiaith yn fwy angerddol na mi, ond nid wyf yn ddall i reswm a ffeithiau. Y mae'n rhaid i ni wynebu ffeithiau er mor annymunol y bônt. Y Saesneg sy'n ennill tir. Paham, ni wn. Ond prin y credaf fod un Cymro gwerth yr enw, yn amddifad o'r gallu a'r awydd i siarad iaith ei fam. Nid yw'r Gymraeg yn mynd i farw. Pwy bynnag a ŵyr rywbeth am fywyd y gwladwr syml, a ŵyr hefyd fri'r iaith ar ei aelwyd.

(I'w barhau.)

CYMDEITHAS GWEINIDOGION UNDODAIDD CEREDIGION.——Gorffennaf 4, cynhaliwyd cyfarfod yn y Manse, Felinfach. Yr oedd yn bresennol y Parchn. John Evans, B.A., E. O. Jenkins, T. O. Williams, M.A., E. Gwilym Evans, B.A., S. E. Bowen a E. Griffith Jones. Llywyddwyd gan y Parch. Lewis Williams.

GWASANAETHAU CYMRAEG LLUNDAIN.—Cynhelir y Gwasanaeth nesaf yn UNITY CHURCH, Upper Street, Islington, N.1. ar Fedi 4, pryd y pregethir gan y Parch. E. R. Dennis, Aberdâr.——Y gorsafoedd *Tube* agosaf ydyw The Angel a Highbury, pob un ohonynt yn siwrne deng munud. Saif Unity Church rhwng Cross Street a Florence Street. Y mae bysiau rhif 4, 19, 30, 43 a 609 yn mynd heibio i'r drws. Disgynner yn Cross Street.

Ein Gŵyr Mawr.

VIII.—JOHN JAMES.

GELWID Cromwell "Yr Annibynnwr Mawr", ac mewn ystyr gellid galw John James "Yr Undodwr Mawr". Dyma weinidog sefydlog cyntaf yr Undodiaid yn Sir Aberteifi ac yr oedd gofal yr unig dair Eglwys yn y sir arno, sef Pantydefaid, Capelygroes ac Ystrad. Nid oeddent ond wedi'i sefydlu y flwyddyn gynt a gwaith John James oedd gosod y seiliau i lawr yn gadarn, a gwnaeth ei waith yn ardderchog.

Gŵr praff a bywiog o feddwl ydoedd, gŵr mawr ar lawer ystyr ac ym marn y diweddar Athro W. J. Evans, M.A., Caerfyrddin "*a review of the life and character of Unitarian Ministers in Wales leaves John James without a rival*".

Fe'i ganwyd dydd Mercher y Lludw, Chwefror 1779, yng Nglynderi ar dir Rhydybene, Llangeler, Sir Gaerfyrddin a chafodd ei fedyddio ar Chwefror 21, 1779 yn ôl cofnod ar lyfr yr Eglwys. Ar restr tanysgrifwyr i 'Delyn Dewi' ceir ei enw fel disgybl Dafis Castellhywel a chesglir felly mai yma y cafodd ei addysg.

Yn 1802 ceisiodd am dderbyniad i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin ond ni dderbyniwyd mohono. Nid oedd Caerfyrddin yr adeg hon yn ffafrio Undodwyr. Amheuai'r Athro W. J. Evans fod ei Undodiaeth wedi'i gau allan, er yr ymddangosai felly iddo ef a'i gyfeillion. Nid oedd betruster ym meddwl John James ei hun canys dywed mewn llythyr at y Parch. Daniel Jones yn 1853,—

> "*The Carmarthen Academy has long ceased to be as useful to the cause of truth among the Unitarians as it was when we were* BOTH REFUSED ADMITTANCE ON ACCOUNT OF OUR SUPPOSED HERETICAL UNITARIAN SENTIMENTS".

Nid oes betruster nad Undodwr oedd John James, Undodwr pybyr o Ysgol Priestley, ac un wedi dod dan ddylanwad Dr. Charles Lloyd.

Yn 1802 fe'i derbyniwyd i Goleg Exeter dan Kenrick a Bretland a ceir y nodyn hwn yn Lewin's Mead Minutes 1793-1807,—

> "Nov. 1, 1802. That a donation of Ten Guineas be appointed for Mr. James, Student at the Exeter Academy in consequence of the peculiar circumstances of his case . . ."

Ni bu yma ond rhyw ddeunaw mis a bwriadai symud i goleg York ond fe'i darbwyllwyd gan Dr. Charles Lloyd i dderbyn galwad a estynwyd iddo o Geredigion ar Hydref 8, 1803. Ofnai Dr. Charles Lloyd y'i collid o Geredigion wedi ei fyned i York.

Dechreuodd ar ei waith yma tua diwedd 1803 neu ddechreu 1804. Arosai ar aelwyd David Jenkin Rees o Lloyd Jack ac y

mae hanes y ddau ynghlwm fel dau *bregethwr a dau genhadwr drwy Gymru ac fel dau ffrind.* Mewn llythyr ato ar Dachwedd 5, 1803, dywed D. J. Rees : " Mae Dafydd yr Esger, John Blaenwaun, Thomas Rhydybene a finnau yn ymrwymo i chwi am ddeugain punt y flwyddyn y ddwy flynedd gyntaf . . . "

Ymroes i'w waith yma gan gadw ysgol a phregethu. Yn Awst 1814 derbyniodd alwad o Gellionnen. Addawodd ofalu amdani a phregethu yno unwaith y mis ar gais Dr. Thomas Rees. Yn gynnar yn 1815 derbyniodd alwad o Benybont-ar-Ogwr a Betws a bu yma o Mai 26, 1816 hyd Mai 26 (achlysurol hyd Tachwedd 22, 1818), gan ymadael a Cheredigion, er i'r eglwysi yno wneud llawer cais i'w gael yn ôl. Wedi dwy flynedd rhoes Penybont a'r Betws i fyny gan gadw gafael yng Ngellionnen yn unig, ac yma bu yn fawr ei barch a'i ddylanwad tan iddo roi gofal yr eglwys i fyny yn 1861. Bu farw Medi 1, 1864 yn 85 mlwydd oed a chladdwyd ef ym mynwent Pantydefaid.

Yr oedd yn ysgolfeistr llwyddiannus a phregethwr hyawdl. Dywedir iddo gael ei siomi am na chafodd ei apwyntio yn athro yng Ngholeg Caerfyrddin yn 1814, a bod ym mryd David Davis Castellnedd ac yntau gychwyn academi yng Nghastellnedd wedi iddo symud i Forgannwg. Y bwriad hwn ond odid a'i tynnodd yno.

Gwnaeth ddiwrnod da o waith ac ef ond odid oedd un o gedyrn ein pulpud. Cyfieithodd i'r Gymraeg *Holwyddoreg* neu Gatechism Dr. Priestley ac argraffwyd hwn yn 1805 : *dau draethawd* ; y cyntaf ar y geiriau " Prynedigaeth, Pridwerth, Pwrcas, etc." a'r ail ar y " Geiriadau a fabwysiadir yn y Testament Newydd ag ydynt yn dwyn perthynas i Ebyrth," 1807.

Yn 1808—1811 cyhoeddodd " Ymofyniad am Sylfaen yr Athrawiaeth o Haeddiant Crist " mewn pedwar o rifynnau.

Yn 1824 cyhoeddwyd ei gyfieithad " Ymofyniad tawel i'r Athrawiaeth Ysgrythyrol am Berson Crist gan Thomas Belsham ".

Fel y gwelir pregethwr athrawiaethol oedd John James. Yr oedd angen un felly yr adeg honno o leiaf, ac yng Ngheredigion ac yng Ngellionnen wedyn gosododd Undodiaeth ar sylfaen gadarn yn nhymor ei babandod yng Nghymru.

G.

LLONGYFARCH.—Da fydd gan lu o gyfeillion glywed am lwyddiant Mr. Meredith Thomas, Llysfaen-isaf yn ennill y radd o B.Sc. ym Mhrifysgol Aberystwyth. Aed ymlaen eto.

PENODIAD.—Llawenydd mawr gennym hysbysu fod Miss Mabel Jones, merch Mr. a Mrs. Edward Jones, Dolcoed, Ciliau Aeron wedi ei phenodi'n *Shorthand Typist* i'r Welsh National Memorial Association Clinic yn Llanbedr. Hi a gafwyd yn orau o'r nifer a ymgeisiai am y swydd.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

AM FIS AWST.

SAFON I.—*I Blant dan 8 oed.*

Method.—Darllener A. yn fanwl fel o'r blaen. Yna ateber y cwestiynau yn B. Dysger C. ar y cof.

A. *Gwers*—Y BACHGEN IESU. (Seiliwyd ar Luc ii. 41—52).

Ni wyddom lawer o hanes Iesu pan oedd yn fachgen bach. Credwn mai ym mhentref Nas-ar-eth y cafodd ei fagu. Iddew oedd, ac yr oedd gan yr Iddewon bedair gwyl. Un o'r rhai hyn oedd Gwyl y Pasg. Ar Wyl y Pasg aent i fyny i Gaer-salem. Hi oedd tref fwyaf y wlad, ac ynddi yr oedd y deml. Capel, neu eglwys fwyaf yr Iddewon oedd y deml. Pan oedd Iesu yn ddeuddeg oed (neu un deg dau oed) aeth gyda'i dad a'i fam i Wyl y Pasg i Gaer-salem. Yr oedd yn daith dri diwrnod o Nas-ar-eth i Gaer-salem, ac yr oedd yr wyl yn parhau am wyth diwrnod. Wedi i'r wyl orffen cychwynodd Ioseff a Mair eu ffordd adref gan feddwl bod Iesu yn eu dilyn gyda'i ffrindiau. Pan ddaeth y nos aethant i chwilio'r cwmni amdano, ond nid oedd Iesu yno. Cawsant ofn ac aethant yn ôl i'w chwilio. Buont yn chwilio am dri diwrnod cyn ei gael. O'r diwedd cawsant ef yn y deml yn gwrando ar y doctoriaid ac yn eu holi a'u hateb. Athrawon oedd y doctoriaid, ac yr oedd pawb yn synnu gweld bachgen deuddeg oed yn holi ac ateb dynion fel rhain. Nid oedd ei fam yn fodlon ei fod wedi mynd ar goll, a gofynnodd iddo paham yr oedd wedi aros ar ôl heb gennad. Atebodd Iesu, "Fe ddylech wybod mai yn y deml yr oeddwn." Yna aeth adref gyda'i dad a'i fam.

B. *Cwestiynau.*

Pa le y cafodd Iesu ei fagu? Pa beth oedd Nasareth? I ba genedl y perthynai Iesu? Pa sawl gwyl oedd gan yr Iddewon? Enwch un ohonynt. I ba le yr ai tad a mam Iesu ar Wyl y Pasg? Beth oedd enw tad a mam Iesu? Beth oedd Caersalem? Pa adeilad mawr oedd yng Nghaersalem? Pa beth oedd y deml?

Pa faint oedd oed Iesu pan aeth i fyny i Gaersalem ? Gyda phwy yr aeth i fyny ? Pa faint o amser a gymerent ar y ffordd ? Pa faint o amser y buont yn yr wyl ? Pa bryd y gwelodd ei dad a'i fam eisiau Iesu ar eu ffordd yn ôl ? Pa le y credent yr oedd ? Pa beth a wnaethant wedi methu a'i gael ? Pa faint o amser y buont yn ei chwilio yng Nghaersalem ? Pa le y cawsant ef ? Pa beth yr oedd yn ei wneud yno ? Pwy oedd y doctoriaid ? Pa beth oedd y bobl yn y deml yn feddwl o Iesu Grist ? Pa beth a ddywedodd ei fam wrtho ? Beth oedd ateb Iesu Grist ? I ba le yr aeth wedi hyn ?

C. *Dysgu ar gof.*

Emyn 476 (*Perlau Moliant*) y pedair llinell olaf a'r cytgan yn y pennill cyntaf.

SAFON II. *I Blant o 8 i 12 oed.*

A. *Gwers.*

Darllener yr ail bennod o " Hanes Iesu i Blant " (Parch. T. O. Williams, M.A.) yn fanwl ac yna ateber y cwestiynau hyn.

B. *Cwestiynau.*

Pa beth yw enw llawn Iesu ? Pa beth yw " Crist " yn yr enw Iesu Grist ? Pa beth yw ystyr Crist ? Pa bryd y ganwyd Iesu ? Pa le y ganwyd Iesu ? Pa beth oedd enwau ei rieni ? Pa beth oedd gwaith ei dad ? Ai Iesu oedd unig blentyn y teulu ? Enwch bedwar o'i frodyr. Pa beth y galwai pobl Nasareth Iesu ? Ym mha Efengylau y ceir sôn am angel yn dyfod at Ioseff a Mair ? Pa beth oedd enw'r angel ? Pa beth a ddywedodd yr angel ? Pwy a roddodd ei enw i Iesu ? Pa le yr oedd Ioseff a Mair yn byw yn ôl Efengyl Mathew ? Am bwy y cawn sôn amdanynt yn Efengyl Mathew yn dod i weled y baban Iesu ? O ba le y daethent ? Beth oedd enw eu gwlad ? Pa beth oedd eu gwaith ? Sut y daethant i wybod am eni Iesu ? I ba le yr aethant gyntaf ? Pa beth a wnaethant yno ? Pwy a glywodd amdanynt ? Sut frenin oedd Herod ? Pa beth a wnaeth Herod pan glywodd am y doethion ? Pa beth a ofynnodd i'r doethion ei wneud ? I ba le yr arweiniodd y seren hwy wedi hyn ? Pwy a welsant yno ? Pa beth a roisant iddo ? Pa beth a ddigwyddodd i'r doethion y noson ar ôl hynny ? Pa beth a ddywedodd Duw wrthynt yn y breuddwyd ? Pa beth a ddywedodd Duw wrth Ioseff ? Paham y dywedodd Duw wrth Ioseff am ffoi ? Pa bryd y daethant yn ôl ? Paham yr oedd Herod yn ddig ? Sut y ceisiodd Herod wneud yn siwr o ladd Iesu ? Ym mha le yr oedd Ioseff a Mair yn byw yn ôl yr hanes a geir gan Luc ? Pa beth a ddigwyddai yn y wlad yn

'adeg geni Iesu? Pa mor aml y mae cofrestru gennym ni? I ba le yr oedd yn rhaid i bob un fynd i'w gofrestru? I ba le y bu raid i Ioseff fynd i'w gofrestru? Pa enw arall a roir ar Fethlehem? Sut yr aeth Ioseff a Mair yno? Pa le y gorfu iddynt letya? Paham y gorfu iddynt letya yno? Pa le y ganwyd Iesu a pha amser? Paham yr oedd yn rhaid i'r bugeiliaid wylio eu praidd drwy'r nos? Pwy a ddaeth at y bugeiliaid y nos hon? Pa beth oedd ei neges? Pwy a ddaeth atynt wedyn, a pha beth a wnai'r rhai hyn? Pa beth oedd yng nghalon y bugeiliaid? Pa beth a wnaeth y bugeiliaid? Pa beth a welsant ar ôl cyrraedd pen eu taith? Pa beth a wnaeth y bugeiliaid wedi cyrraedd? Pa bryd y dylem gofio Iesu?

C. *Dysgu ar gof.*

[1] Emyn 476 (*Perlau Moliant*) yr ail bennill a'r cytgan.
[2] Luc II, adn. 8—11.

SAFON III. *O 12 oed i fyny.*

Awst 7—Mathew VI.	Awst 21—Mathew VIII.
Awst 14—Mathew VII.	Awst 28—Mathew IX.

Awgrymir yr un peth a'r mis o'r blaen ynglŷn â holi'r ysgol am chwarter awr ar y diwedd.

Priodasau.

MEHEFIN 29, yng Nghapel y Groes, Mr. MORGAN EVANS, 2, Greenfield Terrace, Llanbedr a Miss HANNAH JONES, Araul. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. Griffith Jones a D. Evans. Cofrestrwyd gan Mr. D. H. Rees, Llanbedr. Gwyn fo eu byd.

GORFFENNAF 9, yng Nghapel y Fadfa, o flaen y cofrestrydd, Mr. Alun Evans, Mr. EVAN LEWIS EVANS, Maple Villa, Dihewid a Miss SARAH ANNE JONES, Rhydsais, Talgarreg. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins ac A. M. Jones, Ficer Dihewid. Boed iddynt bob llwyddiant.

GORFFENNAF 13, yng Nghapel Seion, Llandysul, Mr. EVAN THOMAS, 20, Lincoln Street, Llandysul a Miss MARY CATHERINE (KATIE) JONES, Stafell, Llandysul. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, D. Rhydderch ac E. Gwilym Evans. Pob llwyddiant a'u dilyno.

TREBANOS.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Agor y Neuadd Newydd ar Fehefin 27. Y mae bron ddau cant a hanner o flynyddoedd er pan godwyd y Capel cyntaf ar fynydd Gellionnen, ac i gwrdd a'i anghenion ac i fod yn arwydd o werthfawrogiad y genhedlaeth bresennol o lafur ac aberth y blynyddoedd hyn y codwyd yr adeilad hardd ac eang. Ceir y manylion am y ddau Gyfarfod mewn ysgrif ar "Gapel Gellionnen" yn y rhifyn nesaf.

Cynghrair y Gwragedd.

RHANBARTH CEREDIGION.

PENDERFYNWYD eleni gwneud yr hen gapel ar fynydd Gellionnen yn gyrchfan y gylchdaith flynyddol a mynd yno ar ddydd Sadwrn, Mai 28. Arweiniai'r ffordd drwy bentref hynafol Llansawel, heibio i Rydodyn ac adfeilion Abaty Talyllychau a'r llynnoedd llonydd lle yr arferai myneich o'r dyddiau gynt hel eu pysgod. Yn Llandeilo cyfarfu a'i gilydd adrannau de a gogledd y rhanbarth, ac wedi ciniawa yno, aeth y parti'n gyfan ymlaen i'r Onnen Fawr, lle y bu unwaith Gapel Undodaidd, ond nid erys yno mwy ond tŷ annedd i ddangos y fan. Pe bai'r tywydd yn fwy ffafriol, byddai'r Parch. T. O. Williams, M.A. wedi dweud wrthym yno hanes yr achos.

Aros awr wrth Gastell Carreg Cennen, a rhai o'r aelodau ieuengaf yn dringo'r llechwedd serth sy'n arwain i'r Castell a saif ar fraich greigiog un o drumau'r Mynydd Du.

O'r diwedd cyrhaeddwyd Gellionnen ond nid heb orfod dringo llwybrau dolennog unwaith eto. Dywedir fod y tŷ cwrdd hwn yn un o'r rhai cyntaf yng Nghymru lle y clywid pregethu Undodiaeth o'i bulpud. Saif ar ben y mynydd, ac yn y dyffryn islaw y mae tref Pontardawe. Llanwyd yr adeilad eang yn weddol lawn, a chyda dwyster cymrwyd rhannau defosiynol y gwasanaeth gan Miss Evans, Ffynnon Fair. Llywyddwyd gan Mrs. Jenkins, Blaenwaun-ganol, a siaradodd y Parch. T. O. Williams, M.A. ar hanes yr achosion yn yr Onnen Fawr a Gellionnen. Dywedodd fod i'r Onnen Fawr hanes rhamantus. Rhyw dair milltir o'r lle y saif Llandyfân. Yno yr oedd hen Gapel Catholig, ac yn ei ymyl yr oedd ffynnon sanctaidd. Caniatawyd i'r enwadau ddefnyddio'r capel, a thrigasant yno fel brodyr ynghyd tan 1788, pryd y defnyddiodd y Bedyddwyr y ffynnon sanctaidd fel bedyddfa. Oherwydd pethni'r dadleuon diwinyddol tua diwedd y ddeunawfed ganrif fe aeth yn rhy dwym i'r tri enwad yn y " capel siprys ", a thua 1808 symudodd y Bedyddwyr i Soar a'r Annibynwyr i Ffairfach, a chafodd yr Undodiaid y capel iddynt eu hunain. Yn gweinidogaethu yma y bu John Griffiths (Jac Gruffydd o Landebie), Arthur Williams (1816-1832), ac wedi hynny D. Lewis Jones a fu'n ddiweddarach yn athro mewn Hebraeg yng Ngholeg Caerfyrddin. Agorodd ef ysgol yn Llandeilo, a bu'r fath lwyddiant ar ei weinidogaeth yn Llandyfân nes peri i'r enwadau ereill anesmwytho, ac erfynasant ar y meistr tir, Arglwydd Dinefwr, roddi rhybudd i'r gynulleidfa ymadael. " Yr oedd Llandyfân yn perthyn i'r Undodiaid er cyn co, ond daeth yr Eglwys i wybod am ryw wall yn y gweithredoedd, ac aeth â'r capel drwy drais a chyfraith ". (Dewi Dawel MSS.). Am beth amser cynhaliwyd y gwasanaethau mewn tai annedd, ac wedi methu o lawer cais i brynu tir yn Llandeilo cawsant dir ar fferm yr Onnen Fawr ar brydles o gan mlynedd namyn un. Adeiladwyd y capel yn 1839, a'r Parch. D. L. Evans yn gorffen ei weinidogaeth ychydig amser cyn cwblhau'r adeilad. O 1839 hyd 1843 bugeiliwyd y ddiadell gan y Parchn. William Rees, Cwmwr Du, Benjamin Davies a John James. Yn 1843 David Griffiths o Landysul yno, a bu'n weinidog am chwe mlynedd. Yn ei ddilyn y mae'r Parchn. Titus Evans, D. L. Evans a John Evans, Gellionnen. Yn 1886 caewyd y capel. " Ym mhen deng mlynedd yr oedd yn bwll heb ddim ond y fan i sôn am 'slawer dydd." Yr oedd Mr. Williams yn dwyn i'm cof hen ddyddiadur—dyddiadur y Parch. John Thomas a fu un adeg yn weinidog Pantydefaid. Ai ar droeon i'r Onnen Fawr, ond pa faint o amser a gymrai iddo wneud y siwrne hir a blinedig ni ddywaid.

O herwydd digwyddiad annisgwyl methai'r Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. a bod yn y cyfarfod, a chyflwynwyd croeso cynnes cynulleidfa Gellionnen i'r ymwelwyr gan Mr. John Hopkin, a rhoes yntau ychydig hanes ychwanegol am yr hen adeilad.

Diolchwyd i'r siaradwyr ac i aelodau adran Trebanos o'r Cynghrair am eu croeso a'u lletygarwch gan Miss Jones, Gellifaharen. Ategwyd y diolch gan Miss S. Davies, B.A., Llwynifan. Yn bresennol yn y gynulleidfa yr oedd y

Prifathro a Mrs. W. S. Jones, a'r Parchn. E. Rosalind Lee, M.A., John Evans, B.A., E. O. Jenkins a E. Griffith Jones.

Gwnaeth y " pererinion " gyfiawnder llawn a'r wledd o dê a huliai'r byrddau'n Ysgoldy'r Graig, Trebanos, a gwnaethpwyd y trefniadau rhagorol am y gylchdaith gan Mrs. T. O. Williams, Miss Thomas, Cletwr Villa, Miss Evans, Ffynnon Fair a Miss Davies, Llwynifan.

K.J.

RHANBARTH MORGANNWG.

Ar wahoddiad gwresog y Parch. E. Rosalind Lee, M.A. cynhaliwyd cyfarfod yr haf ym Mhenmaen ar Orffennaf 14. Yn cynrychioli pump o'r un adran ar ddeg, yr oedd yno 114 o aelodau. Oherwydd disgyn o'r glaw yn ddibaid gorfu i'r cwmni aros dan dô, a threfnwyd program diddorol o ganu gan aelodau adran Trebanos. O elw y tê casglwyd £3 : 5 : 0 i'r *Indian Fund* a £1 i'r *Women's League Hostel.*

Cymanfa Ganu Ceredigion.

Cynhaliwyd y Gymanfa ar Fehefin 13 yng Nghapel Seion Llandysul—Capel helaeth a phrydferth yr Annibynwyr. Yr oedd yr hin yn desog, a daeth tyrfa anarferol ynghyd o bob cwr o'r sir. Gwelwyd yno hefyd gyfeillion o Gaerdydd, Aberdâr, Ferndale a Chaerfyrddin, ynghyd â thorf o gantorion o Bontardawe a'r cylch. Cyfeiriai pob pwynt y bore hwn at Landysul, ac ni chafodd neb ei siomi. Gwnaeth cynulleidfa'r Graig drefniadau rhagorol i dderbyn, croesawu, a phorthi cannoedd o bobl, a chafodd pawb ddiwrnod hapus.

Tystiolaeth arbennig cyfeillion pell ac agos ydoedd, fod rhyw felyster a chyfeillgarwch gwresog i'w deimlo bob amser yn Llandysul. Ymhob oedfa o'r ŵyl gwelwyd gweinidogion pob enwad yn y dref a'r cylch yn bresennol, ac yn selog yn eu plith yr oedd Ficer y plwyf,—dangosfa amserol o wir werth crefydd a chydfoliannu Duw.

Yr oedd cwrdd y bore'n gyfyngedig i'r plant, a chawsom ganddynt ganu swynol a bywiog. Dechreuwyd yr oedfa gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a llywyddwyd gan Mrs. Davies, Faerdre—aelod ac organyddes o Bantydefaid. Siaradodd yn sylweddol ac i bwrpas, a chyfeiriodd yn arbennig at ddyledswydd yr ifanc i gadw gafael yn nhraddodiad eu tadau. Adroddwyd yr emynau yn swynol iawn gan Dilys Davies, Esther Jones, Beryl Jones, Hilda Evans, Rosina Evans a Gwyneth Davies.

Dechreuwyd oedfa'r prynhawn gan y Parch. Lewis Williams, a llywyddwyd gan Mr. Josiah Jones, U.H., Garthowen. Dywedodd nad oedd gerddor, ond fe ŵyr pawb am ei deimladau gwresog a'i frwdfrydedd dros ein canu cynulleidfaol. Y mae bob amser yn flaenllaw gyda phob mudiad sy'n hyrwyddo llwyddiant y Gymanfa. Soniodd yn deimladwy am yr amser gynt, gan ddwyn i'n cof lawer o'r hen ffyddloniaid a fu'n selog a gweithgar am gymaint a hanner can mlynedd, ac anogodd y dô ieuanc i'w hefelychu. Teimlem fod ganddo syniadau pendant, yn tarddu o brofiadau eang ei fywyd.

Dechreuwyd oedfa'r hwyr gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., a llywyddwyd gan Mr. James Jones, Cyfreithiwr, Llandysul. Traddododd Mr. Jones araith bwrpasol, yn dyhidlo cyfeillgarwch, ac amlygodd fod ymweliad y Gymanfa â Llandysul yn dihuno teimladau Cristnogol. Am hynny estynnid iddi groeso twymgalon.

Rhoes Marion Davies, fel arfer, inni fwyniant drwy ei chanu swynol.

Cafwyd canu bendigedig drwy'r dydd, a theimlem fod ansawdd y lleisiau'n dda ac fod rhyw ysbryd newydd yn ein meddiannu. Arweinydd newydd, wrth bob tebyg, a phawb yn gwylio ei arwyddion. Cafwyd dydd o adfywiad newydd. Nid oes angen beirniadu'r dyn hwn. Y mae Mr. Ivor Owen, A.R.C.O., o Abertawe, yn adnabyddus drwy Gymru gyfan fel cerddor ac arweinydd. Ef oedd yn arwain eleni, a chafodd ein gorau. Rhoes yntau bob help i'n cynorthwyo.

Ofnwn weithiau mai tuedd y Gymanfa ydyw bod yn " dipin o *show* ". Y mae yna berigl iddi golli ei gwir amcan—sef gwella caniadaeth y cysegr. Fe oddefa'r cantorion, efallai, y sylw na fu iddynt feistroli a dysgu'r program fel y dylent eleni. Yr oedd hyn yn amlwg iawn. Y mae'n werth dysgu'r tonau'n dda er mwyn rhoddi'r sylw i'r arweinydd. Gwnaeth yr arweinydd yntau bob ymdrech i gyrraedd yr ysbryd addolgar ym mhob emyn. Ei gri barhaus ydoedd am fwy o sylw. Dyma wendid mwyaf y canu eleni. Er hynny, cafwyd canu godidog drwy'r dydd.

O'r pedair ar ddeg o donau dim ond chwech a ddetholwyd o'r Perlau Moliant. Hoffem weld rhagor er mwyn i'r ieuainc ac ereill ddod yn fwy cynefin â'n caniadaeth. Yn yr ymdrech i godi safon yr ŵyl rhaid symud yn wyliadwrus a pheidio â mynd yn rhy beiriannol. Y perigl ydyw colli golwg ar amcan uchaf y Gymanfa—addoli Duw ar gân.

Gwnaeth swyddogion yr Undeb eu gwaith yn ffyddlon, a diolchwyd dros yr Undeb gan Mr. J. Llewelyn, Bro Hedyn, Castell Newydd Emlyn, i bawb am eu gwasanaeth, ac yn arbennig i Eglwys Seion am eu boneddigeiddrwydd a'u caredigrwydd parhaol i ni fel enwad.

Wele'r lluoedd eto'n wynebu tuag adref, wedi dydd o wledd i'r meddwl a'r ysbryd a chyfarfod â hen gyfeillion mynwesol,—dydd na ellir ei anghofio'n rhwydd. Parhaed brawdgarwch.

J.C.J., Brynteifi.

Marwgofion.

Mai 23, 1938 yn 51 mlwydd oed bu farw DAVID DAVIES, Painter, Arfon, New Street, Llanbedr, wedi cystudd hir a chaled. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers blynyddoedd bellach, a dioddefai oddiwrth glefyd y galon ers yn agos i ugain mlynedd. Nid oedd o gorff cryf ac yn y blynyddoedd diweddaf yr oedd am wythnosau yn ei wely. Er hyn i gyd yr oedd yr heulwen yn ei galon a gwên ar ei wyneb. Yr oedd pawb yn ffrind iddo, ac fel ' painter ' yr oedd iddo air da. Yr oedd yn grefftwr a phleser oedd ei weld wrth ei waith. Er yn blentyn bu'n ffyddlon ym Mrondeifi. Nid oedd neb yn ffyddlonach nag ef tra gallai. Yr oedd yn meddu ar lais peraidd, a swniai fel organ. Yr oedd ei enaid yn y gân a mynych y'i gwelid fel arweinydd côr yn cipio'r wobr mewn eisteddfodau ac fel un o'r pedwar a gipiodd rhyw hanner cant o wobrau am bedwarawd. Cymerai ddiddordeb yn y ddrama ac yr oedd yn actor o'i fodd. Medrai beri i bawb chwerthin ac yntau mor ddifrifol a barnwr. Yr oedd yn un o golofnau Brondeifi ac edrychem ymlaen am gael ei gadw am flynyddoedd ond nid felly. Y mae bwlch mawr ar ei ôl yn yr ardal ac ar yr aelwyd a bwlch na ellir ei lanw yn yr eglwys. Y mae Brondeifi yn ddiweddar wedi cael colledion trymion ac y mae'i chôr wedi'i ddryllio. Yr oedd yn hynaws wrth natur, yn garedig a hael at yr achos ac yn caru Brondeifi o galon. Claddwyd ym mynwent eglwys Brondeifi, a gwasanaethwyd gan y Gweinidog, gyda chynhorthwy y Parch. Lewis Williams. Gadawodd weddw yn unig, mab a merch a llu o ffrindiau i alaru am un a gollwyd yn rhy gynnar.

Mehefin 1, bu farw ANNA JONES, Troedyrhiwgoch, Capel Dewi, Llandysul yn 84 mlwydd oed. Cafodd, fel y gwelir, oes hir, ac am flynyddoedd lawer bu'n cadw tŷ i'w mam a brawd iddi, ond wedi iddynt hwy ffarwelio, gwyddai beth oedd byw ar ei phen ei hun. Er hynny cadwodd yn ysbrydol hyd y terfyn. Gadawodd fab, wyrion, brawd, chwaer a pherthynasau ereill i weld ei heisiau. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins a Evan Jones, Bryneinon.

Sulgwyn, Mehefin 5, bu farw Miss JENNIE GRIFFITHS, Poplars, Aberdâr, yn 79 mlwydd oed. Braidd na theimlir fod rhyw gysylltiad agos yn bod rhwng y Sul Gwyn a marwolaeth Miss Griffiths. Cafodd iechyd da ar hyd y blynyddoedd, hyd at ryw ddwy flynedd yn ôl, a gwelwyd fod y corff yn gwanhau a'r

hen fywiogrwydd yn araf ddiflannu. Golygai hi a'i chwaer dreulio misoedd yr haf ym Mhorthcawl, ond bu rhaid iddynt ddychwelyd, a daeth y diwedd ymhen ychydig ddyddiau. Bu'n athrawes yn Ysgol Ganolradd Aberdâr am dros 30 mlynedd, ac edrychwyd arni gyda pharch ac edmygedd gan lu mawr o fechgyn a merched ieuainc a addysgwyd ganddi. Amheuthun ydoedd galw yn y Poplars a byddai awr neu ddwy'n mynd heibio heb yn wybod inni yng nghwmni diddan y ddwy chwaer. A dyma ergyd tost eto i'r Hen Dy Cwrdd, oblegid bu'n aelod ffyddlon ar hyd y blynyddoedd ac yn gefnogydd trwyadl i'r Hen Achos, ac felly yr oedd hi i unrhyw achos da. Nid oedd eisiau gofyn iddi, oherwydd hi a ofynnai gyntaf beth a ddisgwylid oddiwrthi, ac yr oedd ei help yn barod bob amser. Cyflwynwn i'r ddwy chwaer sydd ar ôl, Miss Bessie Griffiths a Mrs. W. J. Phillips, Nottage, a'r perthynasau i gyd ein cydymdeimlad dwysaf yn eu hiraeth a'u gofid. Bu'r angladd dydd Mercher, Mehefin 8, a gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y Crematorium, Glyntâf gan y Parch. E. R. Dennis.

Gorffennaf 10, bu farw yn 10 mlwydd oed, SARAH GWENDOLEN, merch Mr. a Mrs. Rees Davies, Aber, Cwrtnewydd, ar ôl wythnos o gystudd caled yn y "pneumonia". Cafodd bob gofal, a'r cyfan y medrai tri meddyg ei wneud, ond nid oedd ganddi gryfder i ddal. Hoffid hi'n fawr gan ei chyfeillion ieuainc, a rhoddwyd arwyddio'n o'u coffadwriaeth ohoni ar ei bedd gan blant yr Ysgol Sul a'r Ysgol ddyddiol. Yr oedd presenoldeb ei hysgol-feistr gyda chynrychiolaeth o'i chyd-ysgolheigion yn fynegiad teimladwy o'r serch tuag ati. Claddwyd y dydd Iau canlynol wrth Gapel y Bryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ ac yn y capel gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo'n y capel gan y Parch. S. G. Thomas, Seion, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams. Gadawodd yn ei chartref dad a mam, chwaer a brawd mewn hiraeth dwys ar ei hôl.

Dydd Llun, Gorffennaf 11, bu farw LETITIA DAVIES, Tangaer, Cribyn, yn 77 mlwydd oed. Tarawyd hi'n glaf bore dydd Sul, a'r bore trannoeth yn annisgwyliadwy daeth y diwedd, er nad oedd mewn iechyd da er ys tro. Claddwyd yng nghladdfa Capel Cribyn, a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. Griffith Jones a David Evans. Estynnir cydymdeimlad dwfn i'w mab, ei dau frawd, a llu o berthynasau yn eu galar.

Nodion yr Eglwysi.

CAPEL Y CWM.—Dydd Gwener, Mehefin 10, a'r hin mor fraf, daeth y gynulleidfa a lliaws o gymdogion ynghyd i fwynhau gwledd. Byrddau llawn, cyfeillach hwylus, a champau i'r hen a'r ieuainc ar y maes gerllaw—hynny sy'n gwneud y prynhawn yn un i'w gofio. Meddwl caredig a chalonnau haelionus Mrs. Williams, Penybanc, Rhydaman a'i phriod a wnaeth y wledd yn bosibl. Cynorthwywyd hi gyda'r trefniadau gan ei brawd, Mr. David John Thomas, Tyngrugisaf, a'i briod. Yr oedd yn ddrwg gan bawb fod Mr. Williams, yn herwydd anhwyldeb, yn methu a bod yn bresennol. Un o blant Capel y Cwm ydyw Mrs. Williams. Yr oedd ei thad yn un o gychwynnwyr yr achos, ac er byw ohoni hithau ers blynyddoedd mor bell oddiwrtho, y mae ei serch tuag ato'n aros a'i chynorthwy i'r achos yn gyson. Yn yr hwyr cafwyd cyngerdd o radd uchel gan ferched a bechgyn y lle, yn cael eu cynorthwyo gan gyfeillion o'r gymdogaeth. Rhyfedd mor barod y mae'r cyfeillion i helpu'r Cwm. Gwelwyd hwy'n y prynhawn wrth eu gwaith yn gweinyddu'r te, ac eto ar y llwyfan yn yr hwyr. Llywyddwyd gan yr Henadur Meredith Williams, U.H. Cyfeiliwyd gan Miss Rowlands, Abertegan, a chafwyd benthyg y piano gan Mr. a Mrs. Thomas, Crossway. Mynegodd Mr. Thomas ar ran ei chwaer a'i phriod y pleser a roes y dydd iddynt hwy, a diolchodd y Gweinidog iddynt ar ran pawb am eu caredigrwydd.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.